Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

# Grŵp cynghori ar-lein ar anghydraddoldebau mewn iechyd meddwl

Crynodeb o ganfyddiadau gwaith ymgysylltu

**Ebrill 2023**

Paratowyd y ddogfen hon yn Microsoft Word. Mae dogfen esboniadol ar gael [ar ffurf Microsoft Word] os oes angen unrhyw help arnoch i ddefnyddio'r gweithrediad 'Darllen yn uchel', neu newid lliwiau cefndir y dudalen, meintiau'r testun, neu liwiau'r testun.

Fel rhan o ymchwiliad y **Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol** i **anghydraddoldebau iechyd meddwl**, hwylusodd y Tîm Ymgysylltu â Dinasyddion grŵp cynghori ar-lein gyda phobl sydd wedi profi anghydraddoldebau iechyd meddwl. Mae'r papur hwn yn crynhoi cyfarfod terfynol y grŵp cynghori ar-lein.

## Y cyfarfod olaf

Cafodd adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, *Cysylltu'r dotiau: mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd meddwl yng Nghymru*, ei gyhoeddi ar 19 Rhagfyr 2022. Ymatebodd Llywodraeth Cymru i'r adroddiad ar 20 Chwefror 2023.

Ym mis Mai 2023, cyfarfu'r grŵp cynghori ar-lein am y tro olaf i drafod ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor. Mae'r papur hwn yn crynhoi barn y grŵp cynghori ar-lein am ymateb Llywodraeth Cymru.

## Cyfarfodydd blaenorol y grŵp cynghori

Yn ystod cyfarfodydd blaenorol y grŵp cynghori ar-lein, bu'r cyfranogwyr yn trafod y rhwystrau allweddol rhag gwella iechyd meddwl a'r hyn yr oedden nhw o'r farn y gellid ei wneud i gael gwared ar y rhwystrau. Awgrymodd y cyfranogwyr hefyd nifer o gwestiynau i'r Pwyllgor eu hystyried yn ei **sesiwn dystiolaeth** gyda'r Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Medi 2022. Ar ôl gwylio sesiwn dystiolaeth y Dirprwy Weinidogion, cyfarfu'r grŵp cynghori ar-lein i drafod eu meddyliau, ar sail yr hyn a ddywedodd y Dirprwy Weinidogion.

Mae crynodeb o gyfarfodydd blaenorol y grŵp cynghori ar-lein ar gael yma: https://busnes.senedd.cymru/documents/s132381/Grp%20cynghori%20ar-lein%20anghydraddoldebau%20iechyd%20meddwl%20Crynodeb%20o%20ganfyddiadaur%20gwaith%20ymgysylltu%20-.pdf

# Canfyddiadau'r gwaith ymgysylltu

Bu'r grŵp cynghori ar-lein (cyfranogwyr o nawr) yn ystyried ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion penodol y Pwyllgor. Mae'r argymhellion hynny wedi'u grwpio i bum thema.

## 1. Penderfynyddion cymdeithasol ehangach iechyd meddwl

**1.** Roedd y cyfranogwyr yn teimlo'n rhwystredig gydag ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion 1, 2 a 3:

> *"Mae argymhelliad 1 yn un cysyniadol, tra bod modd gweithredu 2 a 3. Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr un nad oes angen llawer o weithredu arno ac wedi derbyn mewn egwyddor y ddau sydd â chanlyniadau SMART penodol iawn y gellir eu diffinio. Mae'n teimlo fel mai dyma'r thema yma, ochr-gamu a pheidio ymrwymo i unrhyw beth pendant."*

**Recommendation 1.** Ni fydd iechyd meddwl a llesiant y boblogaeth yn gwella, ac mewn gwirionedd gall barhau i ddirywio, oni bai bod camau effeithiol yn cael eu cymryd i gydnabod a mynd i'r afael ag effaith trawma, a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn cymdeithas ac achosion ehangach iechyd meddwl gwael. Rhaid i'r neges hon, ynghyd ag uchelgais glir i leihau anghydraddoldebau iechyd meddwl, fod yn ganolog i strategaeth iechyd meddwl newydd Llywodraeth Cymru.

**2.** Roedd cyfranogwyr yn teimlo mai byr iawn oedd ymateb Llywodraeth Cymru i argymhelliad 1, ac nid oedd yn rhoi hyder iddynt y bydd lleihau anghydraddoldebau iechyd meddwl yn 'egwyddor sylfaenol' o strategaeth iechyd meddwl olynol Llywodraeth Cymru:

> *"Yr un peth nad oedden ni eisiau oedd geiriau gwag i'n cadw'n dawel, a dyna maen nhw wedi'i wneud yn syth gyda'r argymhelliad cyntaf. Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud ei bod yn derbyn yr argymhelliad hwn ond a yw hynny'n wir mewn gwirionedd? Sut?"*

**3.** Roedd y cyfranogwyr yn teimlo'n gryf nad oedd ymateb Llywodraeth Cymru yn rhoi sicrwydd y bydd mynd i'r afael ag achosion iechyd meddwl gwael (e.e. trawma, tlodi ac ati) yn

ganolog i'w strategaeth iechyd meddwl newydd. Cytunwyd nad oedd ymateb Llywodraeth Cymru yn hafal ag uchelgais adroddiad y Pwyllgor:

> *"Y gwir yw nad yw Llywodraeth Cymru am wneud unrhyw beth. Dwi'n siomedig iawn yn ymateb Llywodraeth Cymru."*

**Recommendation 2.** Yn ddelfrydol yn ei hymateb i'n hadroddiad, ond erbyn Gorffennaf 2023 ar yr hwyraf, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu arfarniad gonest o ba ysgogiadau polisi, deddfwriaethol ac ariannol ar gyfer mynd i'r afael â thlodi a phenderfynyddion cymdeithasol eraill iechyd meddwl sydd o fewn rheolaeth Lywodraeth Cymru, a pha rai sydd o fewn rheolaeth Llywodraeth y DU. I gyd-fynd â'r arfarniad hwn, dylid cael asesiad realistig o'r graddau y gall Llywodraeth Cymru wella iechyd meddwl a llesiant y boblogaeth gan ddefnyddio'r ysgogiadau sydd o fewn rheolaeth Llywodraeth Cymru, a gwybodaeth am sut mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod yr ysgogiadau sydd o fewn rheolaeth Llywodraeth y DU yn cael eu defnyddio i sicrhau'r effaith orau wrth wella iechyd meddwl a llesiant yng Nghymru.

**4.** Nid oedd y cyfranogwyr yn cytuno bod pwerau Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi yn gyfyngedig i'r fath raddau nad yw'n gallu gostwng lefelau tlodi yn sylweddol:

> *"Dwi wedi cael llond bol ar glywed "Rhywbeth i Lywodraeth y DU yw hynny". Roedd ein grŵp yn siarad yn benodol am iechyd, am dai, am ddigartrefedd a does dim am hynny yma. Rwy'n gwrthod credu mai problem Llywodraeth y DU yw rhoi terfyn ar ddigartrefedd yng Nghymru."*

> *"Ar wahân i'r Heddlu, mae'r rhan fwyaf o bopeth arall wedi'i ddatganoli ac felly ni ddylid dibynnu ar Lywodraeth y DU i wneud unrhyw beth."*

**5.** Dywed Llywodraeth Cymru ei bod wedi buddsoddi mewn amrywiaeth o raglenni i hybu ffyniant ac atal a lliniaru tlodi. Ond, roedd y cyfranogwyr yn teimlo'n rhwystredig gyda'r diffyg gwybodaeth am sut mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cydweithio:

> *"Roedd ymateb Llywodraeth Cymru yn llawn o ymadroddion a ddefnyddir gan reolwyr, sy'n golygu dim, fel 'meddwl heb orwelion'. Dyw'r ymateb ddim yn rhoi gwybodaeth am sut mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cydweithio. Ac os nad ydyn nhw'n gweithio gyda'i gilydd, dylid dweud hynny!"*

**6.** Roedd y cyfranogwyr yn cytuno bod ymateb Llywodraeth Cymru ynglŷn â mynd i'r afael â thlodi yn annigonol.

> *"[Mae] rhai argymhellion swmpus, ymarferol, y gellir eu hariannu, ond nid ydyn nhw wedi cael eu hystyried. Ond gwn beth fyddai ymateb Llywodraeth Cymru i hynny "Gwyddom eich bod wedi cynnig rhai atebion swmpus, ond dywedodd Llywodraeth y DU wrthym i fod yn ddarbodus"."*

**7.** Cytunodd y cyfranogwyr nad oedd ymateb Llywodraeth Cymru yn adlewyrchiad digonol o bwysigrwydd penderfynyddion eraill iechyd meddwl (e.e. tai, trafnidiaeth, addysg a chyflogaeth ac ati):

> *"Roedd yr ymateb i'w weld yn canolbwyntio ar dlodi yn unig fel mai dim ond hynny yw achos problemau iechyd meddwl yng Nghymru. Dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i achosion iechyd meddwl gwael, a dyna ddylai fod yn fan cychwyn ei strategaeth newydd."*

**Recommendation 3.** Erbyn mis Rhagfyr 2023, dylai Llywodraeth Cymru fod wedi comisiynu adolygiad annibynnol o'r dystiolaeth bresennol, ac ymchwil bellach pe bai ei hangen, i archwilio effaith system les y DU ar iechyd meddwl a llesiant yng Nghymru, a pha effaith y gallai datganoli lles a/neu’r gwaith o weinyddu lles ei chael ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd corfforol a meddyliol yng Nghymru. Dylai'r adolygiad a'r ymchwil ystyried materion yn ymwneud ag egwyddor, yn ogystal ag ymarferoldeb a goblygiadau ariannol cysylltiedig cadw'r sefyllfa bresennol neu unrhyw ddatganoli pellach. Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i gyhoeddi canlyniad yr adolygiad a'r ymchwil.

**8.** Roedd y cyfranogwyr yn deall fod Llywodraeth Cymru'n dweud bod rhywfaint o waith yn cael ei wneud i edrych ar y seilwaith sydd ei angen ar gyfer datganoli gweinyddu lles. Ond, roedd y cyfranogwyr yn cwestiynu pam nad yw Llywodraeth Cymru'n ymrwymo i gomisiynu adolygiad annibynnol, fel y mae’r Pwyllgor yn galw amdano.

# 2. Niwroamrywiaeth

**Recommendation 5.** Yn unol ag argymhelliad ein grŵp cynghori, dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi map ffordd sy'n nodi camau clir ar lefel genedlaethol a lleol i wella iechyd meddwl ymhlith pobl niwrowahanol. Dylid ei gyhoeddi erbyn Gorffennaf 2023 a dylai gynnwys camau i symleiddio’r broses i oedolion a phlant gael asesiad/diagnosis ar gyfer cyflyrau niwrowahanol a gwneud y broses honno’n fwy hygyrch.

**9.** Roedd y cyfranogwyr yn teimlo’n rhwystredig gydag ymateb Llywodraeth Cymru oherwydd y diffyg manylion a roddwyd. Roedd y cyfranogwyr yn siomedig nad oedd yr ymateb

yn darparu 'map ffordd' nac yn cynnwys camau i symleiddio'r broses asesu niwroamrywiaeth na’r diagnosis fel y gelwir amdano gan y Pwyllgor a'r grŵp cynghori ar-lein:

> *"Mae ymateb Llywodraeth Cymru yn ymddangos fel rhestr o esgusodion. Fe ofynnon ni'n benodol am fap ffordd, llinell amser, a chamau gweithredu penodol iawn ac nid yw'r ymateb wedi darparu'r map ffordd a'r amserlenni ond mae hefyd yn rhestru pethau sydd eisoes wedi digwydd. Mae fel petai Llywodraeth Cymru'n dweud 'Edrychwch beth rydyn ni wedi'i wneud, does dim angen i ni wneud mwy'. Mae wedi anwybyddu manylion yr argymhellion. Mae'n siomedig iawn."*

**10.** Roedd y cyfranogwyr yn deall bod ymateb Llywodraeth Cymru yn nodi bod rhaglen wella niwroamrywiaeth wedi dechrau ond yn teimlo'n gryf nad yw ymateb Llywodraeth Cymru yn rhoi digon o fanylion, eglurder, na dealltwriaeth:

> *"I ddarllen bod "rhaglen wella niwroamrywiol wedi dechrau", ydy hi? O ddifrif? Dwi'n gwybod nad yw fy niwroamrywiaeth i wedi gwella. Ond dwi ddim yn credu bod angen ei wella. Ac mae hynny'n dangos nad yw Llywodraeth Cymru wedi gwrando, oherwydd yr hyn y gwnaethom ofyn amdano oedd ymrwymiad clir i gytundeb y cyfranogwyr cymdeithasol ond mae'r model clinigol yn rhedeg yr holl ffordd drwy hwn fel yr enw 'Brighton' drwy ganol ffon india roc."*

**11.** Nid oedd y cyfranogwyr wedi’u hargyhoeddi y bydd cefnogaeth i bobl niwroamrywiol sydd â chyflyrau’n cyd-ddigwydd yn faes blaenoriaeth:

> *“Sut y bydd cefnogaeth i bobl niwroamrywiol sydd â chyflyrau'n cyd-ddigwydd yn faes blaenoriaeth? Does dim manylion! Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn fy nghefnogi gyda fy awtistiaeth, dyslecsia, a syndrom Ehlers-Danlos? Dyw dweud y bydd yn flaenoriaeth ddim yn ddigon da, mae angen i ni wybod sut y bydd Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn flaenoriaeth."*

**12.** Roedd y cyfranogwyr hefyd yn lleisio pryderon ynghylch y Grŵp Cynghori Gweinidogol Niwroamrywiol ac yn cwestiynu a yw aelodaeth y grŵp hwn yn gynrychiolaeth lawn o bobl niwroamrywiol:

> *"Sut mae'r grŵp cynghori wedi'i ffurfio? Pwy sydd yn y grŵp cynghori? Oes unrhyw un sydd â chyflwr niwroamrywiol yn eistedd ar y grŵp cynghori neu ai dim ond criw o siwtiau ydyw? Dylai'r grŵp hwnnw gael pobl â chyflyrau niwroamrywiol yn eistedd arno fel y gallant greu map ffordd i ni, gyda ni. A dyna wnaethon ni ei awgrymu."*

**13.** Ar y cyfan, nid oedd y cyfranogwyr wedi eu hargyhoeddi bod Llywodraeth Cymru yn dangos ymrwymiad o fewn yr ymateb i gyd-gynhyrchu gwasanaethau ac adnoddau gyda phobl niwroamrywiol.

**Recommendation 6.** Yn ei hymateb i’n hadroddiad, dylai Llywodraeth Cymru roi sicrwydd y bydd gwaith i ddatblygu cefnogaeth gynnar drawsbynciol i blant a phobl ifanc a allai fod yn niwrowahanol, a'u teuluoedd, cyn iddynt gael diagnosis ffurfiol, yn mynd rhagddo'n gyflym ac ar frys. Dylai hyn gynnwys nodi pa gamau penodol fydd yn cael eu cymryd a phryd, a manylion pryd a sut y bydd gwerthuso'n cael ei wneud i asesu a yw profiadau a chanlyniadau pobl yn gwella. Dylid ystyried defnyddio dulliau cymorth gan gymheiriaid, cyfeillion fideo a hyrwyddwyr niwrowahanol.

**14.** Roedd y cyfranogwyr yn teimlo’n rhwystredig iawn gydag ymateb Llywodraeth Cymru bod Uned Gyflawni'r GIG wedi comisiynu adolygiad o wasanaethau niwroamrywiol presennol, a bydd yn datblygu 'fframwaith sicrwydd' i fesur effaith y newidiadau.

**15.** Roedd y cyfranogwyr yn teimlo'n gryf nad oedd ymateb Llywodraeth Cymru wedi mynd i'r afael â'r argymhelliad o gwbl ac nad oedd amserlenni wedi'u rhoi ar gyfer y gwaith uchod na datblygu fframwaith sicrwydd.

**Recommendation 19.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phobl niwrowahanol i gydgynhyrchu ymgyrchoedd hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth er mwyn cynyddu dealltwriaeth o niwroamrywiaeth mewn ysgolion ac ar draws gwasanaethau cyhoeddus. Dylai ffocws yr hyfforddiant fod ar ddeall bywydau pobl niwrowahanol, sut i'w cefnogi a'u helpu, a datblygu agweddau a diwylliant cadarnhaol, adeiladol a chymwynasgar, ac nid ar gyflyrau penodol yn unig. Yn unol â’n hargymhelliad 22, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu diweddariad i ni ar y gwaith hwn ym mis Rhagfyr 2023.

**16.** Roedd y cyfranogwyr unwaith eto’n cwestiynu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gyd-gynhyrchu:

> *"Y broblem gyda dweud profiad byw yw ei fod weithiau'n cynnwys rhieni sy'n byw gyda niwroamrywiaeth oherwydd bod ganddyn nhw blentyn niwroamrywiol. Dyw hynny ddim yr un peth â chael rhywun sy'n niwroamrywiol."*

**17.** Cododd y cyfranogwyr bryderon ynghylch y cydweithio â'r Tîm Awtistiaeth Cenedlaethol i ddatblygu adnoddau ar gyfer ysgolion ac ar draws sectorau eraill, a gweithio mewn partneriaeth â phobl niwroamrywiol a rhieni neu ofalwyr:

> *"Y broblem amlwg i mi yw'r rhagdybiaeth yn ymateb Llywodraeth Cymru bod niwroamrywiol yn gyfystyr ag awtistiaeth. Roedd hynny wir yn fy mhoeni."*

**18.** Roedd y cyfranogwyr yn teimlo bod 'gweithio mewn partneriaeth' yn fwriadol annelwig ac nad oedd ymrwymiad cryf i gyd-gynhyrchu.

**19.** Roedd y cyfranogwyr yn teimlo'n rhwystredig nad oedd ymateb Llywodraeth Cymru'n cyfeirio at therapi trosi:

> *"Roedden ni am i Lywodraeth Cymru ddatgan na fyddai'n cael Dadansoddiad Ymddygiadol Cymhwysol na therapi trosi unrhyw le yn agos at ysgolion na'r GIG, ac mae hynny ar goll."*

# 3. Y gweithlu

**Recommendation 17.** Yn ei hymateb i'n hadroddiad, dylai Llywodraeth Cymru nodi sut, gan weithio gydag Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru, y bydd yn monitro effaith y camau gweithredu yng nghynllun y gweithlu iechyd meddwl sydd â'r nod o wella llesiant staff. Dylai ymrwymo hefyd i gyhoeddi adroddiadau blynyddol sy'n nodi a yw'r camau gweithredu yn y cynllun yn cael yr effaith fwriadedig, ac os na, beth fydd yn cael ei wneud yn wahanol. Dylai'r adroddiad blynyddol cyntaf gael ei gyhoeddi dim hwyrach na Rhagfyr 2023.

**20.** Cododd y cyfranogwyr bryderon ynghylch ymateb Llywodraeth Cymru y bydd y cynnydd o ran cyflawni ac effaith cynllun y gweithlu iechyd meddwl yn cael ei fonitro drwy fwrdd gweithredu, gan gynnwys pobl sydd â phrofiad byw. Roedd y cyfranogwyr yn cwestiynu'r term 'profiad byw' a'r diffyg manylion:

> *"Fe wnaethon ni ofyn iddyn nhw sut maen nhw'n am ei fonitro, ac fe atebon nhw gyda "Fe gawn ni fwy o gyfarfodydd". Roedden ni'n disgwyl i Lywodraeth Cymru fynd i weithleoedd, gweithio gyda grwpiau cymunedol, gweithio gydag undebau llafur, a chasglu gwybodaeth mewn llawer o ffyrdd."*

**Recommendation 18.** Unwaith y bydd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei chyllideb ddrafft ar gyfer 2023-24, dylai gadarnhau pa rai o'r camau sydd yng nghynllun y gweithlu iechyd meddwl y dyrannwyd cyllid llawn iddynt, pa rai y dyrannwyd cyllid rhannol iddynt, a pha rai sydd heb gael cyllid wedi'i ddyrannu iddynt o gwbl. Dylai hefyd roi manylion pa gamau sy'n cael eu hariannu'n rhannol neu sydd heb eu hariannu a fydd yn cael blaenoriaeth pe bai cyllid pellach ar gael.

**21.** Mae ymateb Llywodraeth Cymru yn cadarnhau y bydd y cynllun gweithlu iechyd meddwl yn cael ei gyllido'n llawn yn 2023-24:

> *"Mae'n debyg y bydd y cynllun gweithlu'n costio 2 geiniog oherwydd byddant yn ysgrifennu mwy o eiriau i ddrysu pawb fydd yn gwneud dim synnwyr a bydd yn llawn addewidion niwlog ar sut y byddant am wella pethau, ond yn ymrwymo i ddim."*

**Recommendation 20.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod yr arolwg o’r gweithlu sydd i’w gynnal ar draws iechyd a gofal cymdeithasol fel rhan o gynllun y gweithlu iechyd meddwl yn cael ei gynnal ar fyrder, a dim hwyrach na mis Gorffennaf 2023. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda grwpiau a chymunedau y nodwyd sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y gweithlu ar ôl dadansoddi’r data amrywiaeth a gasglwyd drwy’r arolwg, a chyda phobl niwrowahanol, i lunio a chyflwyno rhaglen fentora a chymorth i'w helpu i ymuno â'r gweithlu iechyd meddwl. Yn unol â’n hargymhelliad 22, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu diweddariad i ni ar y gwaith hwn ym mis Rhagfyr 2023.

**22.** Roedd y cyfranogwyr ar ddeall bod ymateb Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynnal arolygon o'r gweithlu ar draws iechyd a gofal cymdeithasol cyn Gorffennaf 2023, ond yn cwestiynau sut roedd hyn yn debygol o gael ei gyflawni mewn cyn lleied o amser.

**23.** Yn ôl yr ymateb, mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru yn ymgysylltu â Grŵp Gorchwyl a Gorffen Lleiafrifoedd Ethnig yn y lle cyntaf i ddatblygu dull o gynyddu recriwtio a chadw grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn y gweithlu iechyd meddwl. Roedd y cyfranogwyr yn siomedig ac yn teimlo’n rhwystredig nad oedd cyfeiriad at bobl niwroamrywiol na datblygu mentora a chefnogaeth:

> *"Pe bai Llywodraeth Cymru wedi dweud, "Rydyn ni am ddwyn i mewn bobl niwroamrywiol", yna rwy'n credu y bydden nhw wedi gwrando arnon ni. Ond beth maen nhw'n ei ddweud yw bod Llywodraeth Cymru yn mynd i barhau i wneud yr un peth er nad yw'n gweithio."*

**24.** Teimlai'r cyfranogwyr nad oedd Llywodraeth Cymru yn dangos digon o ymrwymiad i wella llesiant y gweithlu na datblygu gweithlu iechyd meddwl (ac ehangach) sy'n fwy cynrychioliadol o'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu, a mwy o ddealltwriaeth o anghenion grwpiau amrywiol (gan gynnwys pobl niwroamrywiol):

> *"Fe allai Llywodraeth Cymru, yn hawdd, gael achrediad i gyflogwyr, sy'n dweud "mae'r gweithle hwn yn lle gwaith sy’n ystyriol o iechyd meddwl. Rydym yn gwneud A, B ac C oherwydd bod yn rhaid i ni ddarparu A, B ac C i*

*fodloni'r achrediad hwn". Gallai hyn fod wedi bod yn rhywbeth pendant y gallai Llywodraeth Cymru fod wedi ei wneud, a fyddai hefyd wedi rhoi'r adroddiad cynnydd iddi y mae'n gobeithio ei gyhoeddi bob blwyddyn."*

**Recommendation 26.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r comisiynwyr heddlu a throsedd a'r heddluoedd yng Nghymru i nodi cyfleoedd i wella mynediad ar gyfer swyddogion heddlu at hyfforddiant parhaus mewn ymwybyddiaeth o iechyd meddwl, atal hunanladdiad, ymwybyddiaeth o niwroamrywiaeth, ymwybyddiaeth o anableddau dysgu, a chymhwysedd diwylliannol. Yn unol â'n hargymhelliad 22, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu diweddariad i ni ar y gwaith hwn ym mis Rhagfyr 2023.

**25.** Roedd y cyfranogwyr yn rhwystredig eto gydag ymateb Llywodraeth Cymru wrth iddi dynnu sylw at y ffaith bod plismona a hyfforddiant yr heddlu yn fater a gedwir yn ôl gan Lywodraeth y DU. Fe leisiodd y cyfranogwyr eu siom yn Llywodraeth Cymru, gan awgrymu bod angen iddi ganolbwyntio ar ba gynnydd y gall ei wneud o fewn ei phwerau presennol:

*"Mae Llywodraeth Cymru wedi gwneud tro gwael â hi ei hun o ran yr ymateb i hyfforddiant yr heddlu. Nid rhywbeth cyfreithiol yw hyn, angen o ran hyfforddiant ydyw. Anghenion hyfforddiant nid newidiadau i ddeddfwriaeth, yw llawer o'r pethau y mae Llywodraeth Cymru'n dweud na all wneud oherwydd Llywodraeth y DU. Dwi'n siŵr na fydd Llywodraeth y DU wrth ddrws yr orsaf heddlu yn dweud "Na! Allwch chi ddim hyfforddi pobl i fod yn well wrth ymdrin â phobl niwroamrywiol a phobl eraill sy'n sâl yn feddyliol"."*

**26.** Er i ymateb Llywodraeth Cymru sôn am bwysigrwydd gweithredu ar y mater hwn trwy drafod â chynrychiolwyr yr heddlu, roedd y cyfranogwyr yn teimlo nad oedd manylion am gamau ac amserlenni penodol ynglŷn â sut y byddai hyn yn digwydd.

# 4. Gwasanaethau cymunedol

**Recommendation 13.** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid, gan gynnwys awdurdodau lleol, Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a sefydliadau cymunedol i ddefnyddio canlyniadau ei hymarfer mapio gwasanaethau iechyd meddwl cymunedol diweddar i gydgynhyrchu cyfeirlyfr ar-lein o wasanaethau cymunedol a digidol sydd ar gael yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol ledled Cymru. Dylai'r cyfeiriadur fod yn hygyrch i'r cyhoedd, dylai fod wedi'i gynllunio i gydweddu â gwybodaeth a chyfeirio at wybodaeth sydd ar gael eisoes, yn hytrach na'i dyblygu, a dylai gynnwys gwybodaeth am ba gymorth sydd ar gael a sut i'w chael, yn cynnwys a oes angen atgyfeiriad.

**27.** Roedd y cyfranogwyr yn teimlo'n rhwystredig gydag ymateb Llywodraeth Cymru ac yn teimlo'i fod yn diystyru'r angen i wella'r modd o gael gafael ar y gwasanaethau sydd ar gael ledled Cymru:

> *"Yr hyn rwy'n ei glywed gan Lywodraeth Cymru yw "Mae gyda ni rywbeth yn ei le yn barod na all yr un ohonoch chi ei ddefnyddio, felly rydyn ni am ei egluro i chi eto". Dydyn nhw ddim yn deall nad yw llawer o bobl yn gallu ei ddefnyddio, mae hyd yn oed gwneud yr alwad ffôn i 111 yn rhwystr, mae'n gweithio yn erbyn ein system synhwyraidd os na allwn ni weld y person, allwn ni ddim gweld eu gwefusau pan maen nhw'n siarad, allwn ni ddim prosesu'r hyn sy'n cael ei ddweud ar lefel clywedol, allwn ni ddim cofio o reidrwydd pa wybodaeth gawsom ar ôl diffodd y ffôn. Dylai fod yn ymwneud â chanfod ffordd newydd yn hytrach na bod Llywodraeth Cymru yn dweud wrthym nad ydym yn ei ddeall."*

> *"Os yw'r wybodaeth yna'n barod, pam rydyn ni i gyd yn troi at Facebook a gofyn "Oes unrhyw un yn gwybod lle alla i ddod o hyd i gefnogaeth?" Oherwydd pe bai'r wybodaeth ar gael a gallen ni ei defnyddio, bydden ni'n mynd yno. Dyw Llywodraeth Cymru ddim wedi ymrwymo i unrhyw beth."*

**28.** Roedd y cyfranogwyr yn deall bod Llywodraeth Cymru'n bwriadu dod â gwybodaeth ynghyd sy'n bodoli eisoes a datblygu cyfeirlyfr newydd ar-lein. Ond roedd y cyfranogwyr yn cwestiynu'r diffyg manylder, amserlen, ac ymrwymiad i sicrhau bod gwelliannau o ran argaeledd gwybodaeth ac ymwybyddiaeth pobl o'r wybodaeth honno yn cael eu cyflawni.

# 5. Mesur ac adrodd ar gynnydd

**Recommendation 22.** Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariadau blynyddol i ni am gynnydd a wnaed o ran gweithredu'r argymhellion a nodir yn yr adroddiad hwn. Dylid darparu'r diweddariad blynyddol cyntaf ym mis Rhagfyr 2023.

**29.** Yn ei hymateb, nid yw Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i ddiweddariad blynyddol na darparu ei diweddariad cyntaf o gynnydd erbyn mis Rhagfyr 2023. Roedd y cyfranogwyr yn teimlo'n rhwystredig ynghylch ymateb Llywodraeth Cymru i roi diweddariad i'r Pwyllgor ar gynnydd "fel y bo'n briodol":

> *"Derbyn mewn egwyddor" ac yna ddweud y bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi adborth "fel y bo'n briodol" yw'r gic olaf, sy'n dangos dirmyg llwyr, ac mae'n dweud "Dwyt ti ddim yn bwysig o gwbl"."*

## Cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Rhayna Mann, Uwch-reolwr Ymgysylltu â Dinasyddion

Rhayna.mann2@senedd.cymru